Pris: 50c

Papur Pawb

Medi 2015 Rhif 411

Canlyniadau'r Sioe..... Tudalen 6

tud 3 Pobl a Phethe | tud 4 Priodasau | tud 14 Teyrnged | tud 15 Y Gair Olaf

Cadair Meifod i Hywel



Pan gyhoeddwyd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol mai ffugenw enillydd y Gadair oedd 'Ceulan', yr oedd hynny'n ddigon o gliw i rai mai'r Prifardd Hywel Griffiths, y Garth, Tal-y-bont, a fyddai'n sefyll ar ei draed ar ganiad y corn gwlad. Chawsom ni ddim mo'n siomi. Hywel, wrth gwrs, oedd enillydd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Fro yn 2008, a mater o amser oedd hi cyn y byddai'n cipio cadair y Brifwyl.

Darlithydd yn Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Aberystwyth yw Hywel, ac mae'n briod ag Alaw ac yn dad i Lleucu. Dyfarnwyd y gadair iddo am lunio cyfres o gerddi ar y thema 'Gwe', a'r hyn y mae'n ei wneud yw trafod profiad hen ŵr mewn ysbyty a fu, pan oedd yn ifanc, yn filwr gwirfoddol yn y Rhyfel Cartref yn Sbaen. Mae meddwl am brofiad y milwr hwnnw'n gwneud i'r bardd feddwl am ryfeloedd diweddar, fel yr un yn Gaza y llynedd, pan oedd lluoedd Israel yn bomio rhannau o'r ddinas gan ladd degau o bobl ddiniwed, sy'n dangos nad oes dim yn newid yn y bôn.

Yr oedd y beirniaid yn credu fod dau ymgeisydd yn agos iawn at gipio'r gadair eleni, ond ar ôl pwyso a mesur, penderfynwyd mai gwaith Hywel a oedd yn haeddu mynd â hi.

Mae'r gadair a enillodd yn gadair hardd a gafodd ei chynllunio a'i gwneud gan Carwyn Owen, saer coed ifanc 20 oed o'r Foel yn Nyffryn Banw – yr ifancaf i lunio cadair yr Eisteddfod Genedlaethol erioed.

Mae noson wedi'i threfnu yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont i longyfarch Hywel ar nos Sadwrn, 17 Hydref am 7.00 o'r gloch, a bydd croeso i bawb.

Cau Ysgol Llangynfelyn gam yn nes

Yn dilyn cyhoeddi ymateb awdurdod addysg Cyngor Sir Ceredigion i'r ymgynghoriad statudol ynghylch yr argymhelliad i gau Ysgol Llangynfelyn, a throsglwyddo'r plant i ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa o fis Medi 2016 ymlaen, mae'n edrych yn debygol fod ffawd yr ysgol wedi'i selio. Er bod y Llywodraethwyr a nifer o ymgyrchwyr lleol wedi cyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r awdurdod wedi ymateb i bob un a gellir gweld yr holl sylwadau a'r ymatebion ar y ddogfen hon a geir ar y ddolen ganlynol: http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswyliwr/Ysgolion-Addysg/Cynllunio-Ddarpariaeth-Addysg/Pages/default.aspx

Does dim arwydd fod yr awdurdod wedi newid ei feddwl. Mae'r cynnig i gau'r ysgol wedi ei gyflwyno'n ffurfiol i Gabinet y Cyngor Sir erbyn hyn, a'r disgwyl yw y bydd y Cabinet yn cyhoeddi ei benderfyniad erbyn 21 Medi. Os caiff y cynnig ei dderbyn gan y Cabinet, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfle gan bobl i gyflwyno gwrthwynebiadau pellach cyn 18 Hydref. Bydd disgwyl i'r Cyngor wneud ei benderfyniad terfynol ym mis Rhagfyr.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Is-gadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Hyfforddiant Diffibriliwr

Yn dilyn llwyddiant yr ymgyrch godi arian i sicrhau cyfarpar adfywio'r galon, braf medru cadarnhau bod y pedwar diffibriliwr bellach wedi'u gosod yn eu lle yn Nhal-y-bont a Bont-goch.

Yn Nhal-y-bont mae diffibrilwyr ar y wal wrth brif fynedfa'r Llew Gwyn, ar wal allanol estyniad gogleddol y Neuadd Goffa, ac ar dalcen Tŷ Twt, ym mhen ucha'r pentre'. Mae'r diffibriliwr ym Mont-goch wedi ei osod ger y giât i'r maes chwarae newydd. Gellir cael mynediad iddynt 24 awr y dydd.

Ar y 9fed o Fehefin cynhaliwyd sesiwn hyfforddi dan arweiniad Glan Davies a Calonnau Cymru i aelodau o gymuned Bont-goch. Mick Fothergill, a arweiniodd yr ymgyrch godi arian.

Cynhelir sesiwn hyfforddiant diffibriliwr ar nos Fercher 16eg Medi. Bydd yn dechrau am 7 a bydd pawb fydd yn cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus yn derbyn tystysgrif.

Ydy eich yswiriant tŷ wedi codi'n sylweddol ers llifogydd 2012?

Ymddengys bod cost yswiriant tŷ i bobl a ddioddefodd yn sgil llifogydd 2012 wedi codi yn sylweddol ers y digwyddiad. Yn ogystal mae lle i gredu bod yswiriant tŷ pobl na ddioddefodd wedi codi gan fod cwmnïoedd yswiriant yn defnyddio côd post fel modd o ddiffinio ardal sydd mewn perygl o lifogydd.

Er mwyn deall yn well beth sy'n digwydd yn Nhal-y-bont, mae'r Grŵp Llifogydd yn cynnal arolwg dienw o'r newid ym mhrisiau yswiriant tŷ.

Os ydych am gyfrannu at yr arolwg, neu am fynychu'r cwrs, cysylltwch ag Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont ArthurDafis@googlemail.com / 07841979452.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**
- **.... a rhagor**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

papurpawb.cymru

Dyddiadur

MEDI

13 **Bethel** 2 Oedfa
Nasareth 10 Terry Edwards
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Gwasanaeth Saesneg

16 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont** Dathliadau'r Canmlwyddiant

20 **Bethel** 10 Cwrdd teulu
Rehoboth 10 W.J. Edwards
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrol Weddi

27 **Bethel** 10 Oedfa Undebol Menter Gobaith
Rehoboth 10 Tegwyn Jones
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol
Bethesda, Tŷ-nant 2 Beti Griffiths

29 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'Teithwyr Ewropeaidd ar y ffordd i Ogledd Cymru' (Dr Heather Williams) 7.30 Llan Fach

HYDREF

4 **Bethel** 2 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Bugail – Cwrdd Diolchgarwch, Bethel yn uno
Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid

6 **Sefydliad y Merched Taliesin** 'Gofal y Croen' (Kelly Milverton)

11 **Nasareth** 2 Judith Morris

Mae Glenys Edwards wedi rhoi'r gorau i fod yn olygydd y Dyddiadur. Hoffem ddiolch o galon i Glenys am ei holl waith dros sawl blwyddyn. Carys Briddon (01970 832478) sydd bellach yn gyfrifol am gasglu'r wybodaeth ar gyfer y Dyddiadur.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Carys Briddon, *carysbriddon@btinternet.com* (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

DIOLCH

Derbyniodd *Papur Pawb* rodd hael gan Gylch Cinio Aberystwyth yn ddiweddar. Mae'r papur yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad hwn at yr achos.

Gohebyddion Tre'r-ddôl

Mae Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl wedi rhoi'r gorau o fod yn ohebydd y pentref wedi blynyddoedd hir o wasanaeth. Diolch yn fawr Susan. Mae Janet Evans, Cefngweiriog, yn parhau i gasglu newyddion ar ein rhan, ond byddai'n ddymunol petai modd cael gwirfoddolwr/wraig ychwanegol i gynorthwyo. A fyddai modd i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith gysylltu â'r golygydd cyffredinol cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda? (maesgwyn@fsmail.net).

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bleddyn a Delyth, gydag Iolo yn dylunio. Golygyddion mis Hydref fydd Helen, Ceri a Rhian gyda Ceri yn dylunio (stiwdio@ceri-talybont.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Hydref, a bydd y papur ar werth ar 9 Hydref.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**

Pobl a Phethe

Llongyfarchiadau i Peter Jones, gynt o Faesyderi, Tal-y-bont, ar dderbyn anrhydedd yn ei barêd diwedd tymor yng ngwesyll yr RAF yn Halton, Swydd Buckingham, ym mis Mehefin.

Y camau nesaf
Llongyfarchiadau i bawb o bobl ifainc yr ardal a dderbyniodd eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch dros yr haf ac a fydd yn mynd ymlaen i'r cam nesaf yn eu gyrfaoedd. Dymunwn yn dda i bawb a fydd yn mynd i'r brifysgol, i'r coleg neu i fyd gwaith.

Llenor ifanc
Llongyfarchiadau i Esther Ifan, Tal-y-bont, am ennill Tlws y Llenor Ifanc dan 25 oed yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst, fis Mehefin am ysgrifennu stori fer. Yn sgil ei llwyddiant cafodd gyfle i gael ei holi gan Twm Morys yng nghwmni nifer o egin lenorion ifainc eraill yn y Lolfa Lên yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dathliadau pen-blwydd
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gyrraedd eu deunaw oed yn ddiweddar: Ffion Jones, Berthlwyd; Hefin Jones, Llys y Bryn; Gwenno Evans, Tanllan; Carwyn Hughes, Maesyfelin; ac i Medi Evans, Neuadd Fawr, a fydd yn ddeunaw yn ystod y mis hwn. Dymuniadau da hefyd i Dilys Morgan, Alltgoch, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ym mis Awst.

Canmol Nofel
Cafodd nofel ddiweddaraf Geraint Evans adolygiad ffafriol iawn ar raglen Nia Roberts ar Radio Cymru dros yr haf. *Y Gelyn Cudd* yw'r bedwaredd nofel ddditectif mewn cyfres sy'n olrhain hanes achosion y Ditectif Insbector Gareth Prior a'r Ditectif Sarjant Clive Akers a'r criw. Roedd y tri adolygydd ar y rhaglen yn cytuno fod hon yn nofel ddarllenadwy iawn wedi'i chynllunio'n ddyfeisgar, a bod yr awdur erbyn hyn yn un o brif awduron llyfrau ditectif Cymru. Mae'r nofel a gyhoeddwyd gan Y Lolfa ar werth am £8.95.

Sioe Gwydion
Dyna braf oedd gweld wynebau cyfarwydd ar y sioe gerdd o'r Eisteddfod Genedlaethol ar y teledu, sef Anwen Howard a'i mab Geraint, Barrie Jones a'i chwaer Claire, a Rhian Nelmes. Yr oedd pob tocyn ar gyfer y perfformiad ar nos Sadwrn agoriadol yr Eisteddfod wedi gwerthu allan.

Priodas Ruddem
Llongyfarchiadau i Dilwyn a Carys, Llys Eleri, Tal-y-bont, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ganol Awst. Fe fuon nhw yn dathlu yn La Rochelle, Ffrainc gyda'r teulu. Pob dymuniad da iddynt.

Y Bugail bach a'i Dad
Daeth llwyddiant mawr i ran y bugail bach, Hari Williams a'i Dad, Dafydd Williams o Dal-y-bont yn Sioe Môn eleni. Cipiodd Hari, sy'n dair oed, y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y tywysydd ifanc o dan wyth oed am dywys oen fanw brid Torwen. Enillodd Dafydd y wobr gyntaf ac ail wobr gyda defaid Torddu, a chipio'r bencampwriaeth am y famog orau o fewn dosbarth y defaid Torddu. Aeth y ddafad honno yn ei blaen wedyn i ennill y gilwobr ym mhrif gystadleuaeth bridiau defaid y Sioe. Llongyfarchiadau i'r ddau fugail.

Wyneb newydd ar 'Lan a Lawr'
Efallai ichi weld wyneb actores dalentog ifanc o'r enw Anni Dafydd ar y ddrama newydd ar S4C, 'Lan a Lawr'. Anni Dafydd yw enw llwyfan Elliw Dafydd o Silian, Llambed, sy'n wyres i Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail.

Genedigaeth
Croeso i Bess, merch fach Jon a Jen, Hen Ysgol yr Eglwys, Bont-goch, a aned ar 1 Medi, yn chwaer fach i Minnie. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Symud tŷ
Ddiwedd mis Gorffennaf, symudodd Elgan, Mared, Leusa a Mostyn o'r Gorlan, Taliesin i fyw i Rydyfelin. Hefyd, y mis yma mae Matt, Hayley a Hannah Willis, Ystordy, Taliesin wedi symud i dyddyn yn Llanilar. Byddwn yn gweld eu heisiau'n fawr ond yn dymuno pob hapusrwydd iddynt yn eu cartrefi newydd.

Cydymdeimlad
Rydym yn cydymdeimlo â Sylvia, Jeremy a James Cartwright a gweddill y teulu ar golli Mrs Leila Welling, mam Sylvia, ym mis Mehefin, yn 104 oed. Roedd Mrs Welling yn arfer byw yn Oak Cottage, Tre Taliesin cyn symud i Gartref Tregerddan ychydig yn ôl.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Mrs Enid Williams, Brondirion, Taliesin gynt, ym mis Awst eleni. Roedd hi'n 102 oed ac yn byw bellach yng Nghartref Tregerddan. Rydym yn cydymdeimlo â'i theulu ym Machynlleth.

Drwg oedd clywed hefyd am farwolaeth Mrs Fanw Griff Jones, James Street. Ein cydymdeimlad â'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd ag Evan Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont, a gollodd ei frawd, Enoc Jenkins, Pwll-pridd, Lledrod, yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont, ar golli ei thad, sef Griffith Griffiths o Ffosygrafel Uchaf, Llandre.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i Maddy Spencer, gynt o Dŷ Manceinion, Taliesin, a'i phartner Matthew Falvey ar eu priodas yn Norwich 15 Gorffennaf.

Croeso
Croeso cynnes i David ac Angharad sydd wedi symud o Dre'r-ddôl i Gerdd y Nant, Taliesin a llongyfarchiadau hefyd iddynt ar enedigaeth eu mab Owain yn ddiweddar.

Graddio mewn meddygaeth
Llongyfarchiadau i Siona Laverty ar raddio gydag anrhydedd mewn Meddygaeth, o Brifysgol Caeredin. Dechreuodd ar ei swydd yn Ysbyty Addenbrooke, Caergrawnt ym mis Gorffennaf.

Priodas
Dymunwn yn dda i Eleri James, Cwmudw, Tal-y-bont ac Owen Jewell o Langwyryfon yn dilyn eu priodas yn Eglwys Sant Pedr, Elerch ar Ddydd Sadwrn, 5 Medi.

Y Wisg Werdd

Llongyfarchiadau i Megan Mai, Maesyfelin, Tal-y-bont, ar gael ei hurddo i'r Wisg Werdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Ei henw yng Ngorsedd yw 'Megan Mai'.

Priodasau'r haf

Llongyfarchiadau i'r parau priod canlynol ar eu priodas yn ystod misoedd yr haf

Llongyfarchiadau i Colin ac Ann Evans sydd wedi priodi ar ôl bod yn gwmni i'w gilydd am 20 mlynedd oddi wrth Anabelle a'r teulu.

Emyr Llewelyn Rees-Griffiths a Lauren Gwenith Davies a briodod yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ac sydd wedi ymgartrefu yn Tegfan, Tal-y-bont.

Sara Morgan, sy'n athrawes yn Ysgol Tal-y-bont, a Dylan Hughes o Faesyderi.

Dafydd Williams a Vivan Ching Yuen Ho a briodod yn Eglwys Llandre ac a fydd yn ymgartrefu ym Mhenywern, Tal-y-bont. Llun: http://fancyphotos.co.uk

Morlan

Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DEG·DROS·DDEG:·y·digwyddiadau·nesaf·yn·y·gyfres·o·10·digwyddiad·dros·10·mis·i·nodi·dengmlwyddiant·Morlan·(dyddiadau·i'w·cadarnhau—·cadwch·olwg·ar·wefan·Morlan!).¶

Medi·2015.·Dangosiad·o·ffilm·fer·a·luniwyd·gan·Sara·Penrhyn·Jones·a·chriw·o·blant·10·oed·dros·yr·haf.·Cyfle·i·weld·a·chlywed·am·fywydau,·dyheadau·a*gobeithion·y·plant·hyn·a·anwyd·yr·un·pryd·â·Morlan.·Croeso·i·bawb.¶

Hydref·2015.·Noson·Bwrw·Bol·i·drafod·moeseg·y·cyfryngau·cymdeithasol¶

Manylion·llawn:·www.morlan.org.uk¶

..... rhagor o Bobl a Phethe

Croeso
Croeso i Marc a Shân Evans sydd newydd symud o Lanilar i Dŷ'n y Berllan,Tal-y-bont, gyda'u merched Cara a Bethan. Hefyd i Iwan Ellis a Catherine O'Hanlon sydd wedi symud i fyw i Gwmcerwyn, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau iddynt ar enedigaeth eu mab, Gruffydd Ellis, a aned ar Awst y 7fed.

Swyddi newydd
Pob dymuniad da i Lowri Evans, Tanllan, Llangynfelyn, sydd wedi ei phenodi yn Gydlynydd Ieuenctid De Ceredigion, ac i Steffan Nutting, Tyhen Henllys, sydd wedi'i benodi yn athro yn Ysgol Gynradd Glantwymyn ger Machynlleth.

Genedigaethau
Llongyfarchiadau i Caryl, merch Ceris ac Alun Williams, Penrhos, Tal-y-bont ar enedigaeth ei mab bach, Owen, sef ŵyr cyntaf i Mam-gu a Dad-cu Penrhos. Llongyfarchiadau hefyd i Mark Ebenezer, 2 Maesyfelin, Tal-y-bont ar ddod yn dad-cu unwaith eto. Ganed bachgen bach, Zach, i'w ferch hynaf.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Hollie Morgan a Wayne Aubrey, The Gleanings, Tal-y-bont, ar eu dyweddïad. Mae'n debyg mai draw yn Ffrainc y gofynnwyd y cwestiwn pwysig!

Priodas
Yn Eglwys Sant Matthew yn y Borth ar 25 Gorffennaf priodwyd Andrew Ross Birch, Goetre Fach, Llangynfelyn â Jennifer Yoeman o Lerpwl. Dymuniadau gorau i'r ddau sydd wedi ymgartrefu yng Nghaer.

Gwellhad buan
Dymunwn y gorau i Dilys Morgan, Alltgoch, a fu yn Ysbyty Bron-glais yn ystod yr haf ac a fydd yn cychwyn triniaeth yn Abertawe yn yr wythnosau nesaf; i Mark Ebenezer, 2 Maesyfelin, Tal-y-bont, a gafodd driniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar, ac i Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.

Testun traethawd PhD
Mae'r Archddiacon D. J. Davies (1879–1935), a aned ym Mhantgwyn, Bont-goch, ac a ddaeth ymhen amser yn brifathro dylanwadol iawn ar Goleg Diwinyddol yn Awstralia, wedi bod yn destun traethawd PhD llwyddiannus o Brifysgol New South Wales yn ddiweddar. (Cyhoeddwyd hanes D. J. Davies yn *Papur Pawb*, 343, Tachwedd 2008, tudalen 10 – ysgrif sydd ar gael ar wefan y papur). Awdur y traethawd PhD yw John Alan McIntosh, a thestun ei bwnc oedd 'Anglican evangelism in Sydney, 1897-1953: the thought and influence of three Moore College principals – Nathaniel Jones, D. J. Davies and T. C. Hammond'.

Gwobr er cof
Cafodd Llinos Lewis, chwaer Gwyndaf Evans, Maesyderi, Tal-y-bont, a'i gŵr Don, sy'n byw yn y Trallwng, gyfle i dderbyn gwobr yn Nhŷ'r Arglwyddi er cof am eu mab, Ian, a fu farw o ganser yn gynharach eleni. Derbyniodd Llinos a Don wobr 'Arwr y Sector Cyhoeddus' ar ran eu mab i gydnabod ei gyfraniad i'r sector cyhoeddus a gwirfoddol. Yr oedd Ian Lewis yn brif weithredwr cynorthwyol a chyfarwyddwr partneriaethau gyda Chyngor Hackney yn Llundain. Gwnaeth lawer o waith da i hybu a gwella ansawdd bywyd pobl drwy greu partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

Cyfarchion pen-blwydd
Pen-blwydd hapus i Paul Watkin, Heulfor, Tal-y-bont, a fydd yn ddeunaw oed ar 29 Medi. Pob hwyl iddo ar y dathlu.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

O'r Cynulliad

Mae tymor yr haf wastad yn gyfle i fynychu rhai o'r sioeau a digwyddiadau sydd mor bwysig i Geredigion. Rwy' wedi cael y cyfle eleni i fynychu nifer o sioeau bach. Trueni na chafwyd gwell tywydd, ond serch hynny braf oedd gweld bwrlwm torfeydd a safon cystadlu uchel.

Ond mae mynychu'r sioeau yng nghefn gwlad hefyd yn atgyfnerthu fod eleni'n flwyddyn anodd i amaeth yn ein sir. Mae prisiau cynnyrch fel llaeth ac ŵyn yn parhau i fod yn isel iawn. Rwy' wedi codi'r materion yma yn y Cynulliad sawl gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. Mae rhesymau cymhleth dros y problemau yma – cryfder y bunt, ansefydlogrwydd yn Rwsia, a grym yr archfarchnadoedd. Ond mae rôl gan Lywodraethau ar lefel Gymreig a Phrydeinig i helpu'r diwydiant i oroesi'r amrywiaethau yma mewn prisiau. Mae mwy y gallwn ei wneud i sicrhau marchnadoedd i gig safonol Cymreig, ac i weithio gyda First Milk yn enwedig i wneud yn siŵr fod y diwydiant llaeth yn ffynnu yn y tymor hir.

Pwnc arall sydd wedi bod yn hawlio'r sylw yr haf yma yw cau canghennau banciau. Y llynedd, caeodd NatWest ei changhennau yn Llandysul a Chei Newydd, a nawr mae cynlluniau tebyg yn Aberaeron, Tregaron a Chastellnewydd. Mae Barclays hefyd yn cwtogi oriau agor rhai o'i changhennau gwledig. Rwy'n gwybod fod pobl yn gynyddol yn bancio ar-lein, ond dydy'r wasanaeth rhyngrwyd ddim yn ddigon da o hyd mewn sawl lle, ac mae'n llawer gwell gan rai fancio wyneb-yn-wyneb. Cefais gyfarfod yn ddiweddar lle gwnes i'r pwyntiau yma i swyddogion NatWest. Mae'n cymunedau ni'n haeddu gwell – yn enwedig gan fanciau lle bu'r trethdalwr yn hael pan aethant i drafferthion yn 2008.

Elin Jones AC

YSGOL SUL BETHEL

Cynhaliodd yr Ysgol Sul wasanaeth yng nghapel Bethesda, Tynant ar 28 Mehefin. Thema'r gwasanaeth oedd 'Iesu'r Ceidwad'. Roedd y capel bach yn llawn dop wrth i bawb wrando ar y plant, ieuenctid a'r rhieni yn darllen,actio, canu a pherfformio gyda graen.

Yna, wedi'r oedfa deulu ar 12 Gorffennaf ym Methel aeth nifer ar daith gerdded trwy goedwig Erglodd draw i'r Wildfowler am ginio Sul hynod o flasus cyn cael hoe haeddiannol dros yr haf.

Bellach rydym wedi ailddechrau tymor newydd gyda sesiwn o gêmau. Croeso cynnes i blant, ieuenctid ac oedolion i ymuno â ni – cewch lot o hwyl yn ein cwmni.

CANLYNIADAU SIOE TAL-Y-BONT

Cafwyd diwrnod eithriadol lwyddiannus yn y Sioe eleni, ac fe fu'r tywydd yn garedig. Daeth y torfeydd, ac nid oedd y derbyniadau wrth y giât ond rhyw £30 yn llai nag ydoedd y llynedd, a'r llynedd oedd yr ail flwyddyn orau erioed.

Cadeirydd y Sioe oedd Dafydd Jenkins, Tanrallt, ac yr oedd yn ddiolchgar iawn i bawb a oedd wedi cynorthwyo i wneud y Sioe yn llwyddiant. Y Llywyddion oedd Arvid a Gwenllian Parry-Jones, Isallt, Tal-y-bont. Yr oedd y ddau wedi mwynhau yn ystod y dydd ac yn llawn canmoliaeth i safon y cynnyrch a'r arddangoswyr ymhob un o'r dosbarthiadau. Roedd yn braf gweld Dilys Morgan yno yn derbyn blodau fel arwydd o werthfawrogiad Pwyllgor y Sioe iddi am ei gwasanaeth fel Ysgrifennydd y Babell Fawr yn ystod y 19 mlynedd ddiwethaf.

I goroni digwyddiadau'r dydd, daeth cannoedd o bobl i wylio'r cystadleuwyr o bell ac agos yn y Cneifio Cyflym ar y Patsyn Glas. Dylem longyfarch pawb a fu wrthi'n paratoi at drefniadau'r noson mewn modd mor broffesiynol. Erbyn hyn, mae Cneifio Cyflym Tal-y-bont yn ddigwyddiad o bwys yng nghalendr blynyddol Gogledd Ceredigion.

CEFFYLAU
Hurfeirch
1 Natasha Davies, 80 Maesyderi
Ceffyl Marchogaeth
2 Natasha Davies
Gwisg Ffansi
1 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll
Caseg neu geffyl Gwedd
3 Paul a Lowri Fleming, Penygraig, Tre'r-ddôl

GWARTHEG
Holstein
Heffer Ifanc
1 Teulu Cerrigcaranau, Tal-y-bont, 2 a 3 G a R Watkin, Henllys, Dôl-y-bont
Heffer Gyflo
1 Teulu Cerrigcaranau, 2 a 3 G a R Watkin
Buwch Gyflo
1 a 2 Teulu Cerrigcaranau
Heffer Odro
2 a 3 Teulu Cerrigcaranau
Buwch Odro
1 G a R Watkin
2 a 3 Teulu Cerrigcaranau
Pâr
1 a 2 Teulu Cerrigcaranau, 3 G a R Watkin
Pencampwr
G a R Watkin
Cilwobr
Teulu Cerrigcaranau

Da Duon
Heffer a aned ar ôl 1/3/14
2 Teulu Cerrigcaranau
Llo a aned yn 2015
1 Huw Jones, Llety Cynnes

Buwch a Llo mewn lloc
1 Trefor Jones, Cwmcae

Tywysydd Ifanc
11 oed ac iau
2 Ynyr Siencyn, Tanrallt, 3 Carys Watkin, Henllys
12-16 oed
1 Bedwyr Siencyn, Tanrallt

Defaid Mynydd Cymreig
Hwrdd
1 Teulu Tanrallt, 2 Enoc a Dewi Jenkins, Tyngraig, 3 Teulu Tynant
Hwrdd Blwydd
1 a 2 Enoc a Dewi Jenkins
Oen Hwrdd
1 a 2 Enoc a Dewi Jenkins, 3 Teulu Tanrallt
2 Ddafad
1 a 3 Enoc a Dewi Jenkins, 2 Tanrallt
2 Ddafad Flwydd
1 a 2 Enoc a Dewi Jenkins
Oen Fenyw
1 Enoc a Dewi Jenkins, 2 Teulu Tanrallt, 3 Teulu Tynant
Grŵp
1 Enoc a Dewi Jenkins, 2 Teulu Tanrallt
Pâr o Hyrddod
2 Enoc a Dewi Jenkins, 3 Steffan a Garmon Nutting, Tyhen Henllys
Pencampwr
Teulu Tanrallt
Cilwobr
Enoc a Dewi Jenkins

Defaid Torddu
Hwrdd
1 a 3 Dafydd Williams, Morawel, Maesyderi
Oen Hwrdd
3 Dafydd Williams

Dafad
1 Dafydd Williams
Dafad Flwydd
1 a 3 Dafydd Williams
Oen Fenyw
1 a 2 Dafydd Williams
Pencampwr a Chilwobr
Dafydd Williams

Torwen
Hwrdd
2 Dafydd Williams
Oen Hwrdd
2 Dafydd Williams
Dafad
2 a 3 Dafydd Williams
Dafad Flwydd
2 a 3 Dafydd Williams
Oen Fenyw
2 Dafydd Williams
Grŵp
1 Dafydd Williams

Mynydd Arall
Hwrdd
2 Gwion Evans, Tanllan
Oen Hwrdd
2 a 3 Gwion Evans
Dafad
3 Gwion Evans
Dafad Flwydd
3 Gwion Evans
Oen Fenyw
3 Gwion Evans

Jacob
Hwrdd
1 Huw Davies, Lletyifanhen
Oen Hwrdd
2 Huw Davies
Dafad
2 a 3 Huw Davies
Dafad Flwydd
3 Huw Davies
Oen Fenyw
2 a 3 Huw Davies
Cilwobr
Huw Davies

Suffolk
Hwrdd
2 Dylan Morgan a'r teulu, Alltgoch

Charollais
Oen Hwrdd
3 Ffion Jones, Berthlwyd

Texel
Hwrdd
1 Dylan Morgan a'r teulu
Dafad Flwydd
2 a 3 Dylan Morgan a'r teulu
Oen Fenyw
3 Dylan Morgan a'r teulu
Cilwobr
Dylan Morgan a'r teulu

Dorset Moel a Chorniog
Hwrdd
1 Griffiths a Davies, Dolclettwr
Oen Hwrdd
2 Griffiths a Davies
Dafad Oedranus
1 a 2 Griffiths a Davies
Dafad Flwydd
2 a 3 Griffiths a Davies
Oen Fenyw
3 Griffiths a Davies
Pencampwr
Griffiths a Davies

Zwartbles
Hwrdd
1 Susan Rowlands, Erglodd
Oen Hwrdd
2 Susan Rowlands

Dafad
1 Susan Rowlands
Oen Fenyw
2 Susan Rowlands
Grŵp
1 Susan Rowlands
Pencampwr
Susan Rowlands

Beltex
Oen Fenyw
1 Gwion Evans, Tanllan
Cilwobr
Gwion Evans, Tanllan

Bridiau Pur Eraill
Hwrdd
3 Susan Rowlands, Erglodd
Oen Hwrdd
3 Susan Rowlands
Dafad Flwydd
2 Dylan Morgan a'r teulu, Alltgoch

Defaid Prin
Hwrdd
3 Elfed Jones, Berthlwyd
Dafad
1 Trefor Jones, Cwmcae
Dafad Flwydd
1 Trefor Jones, 2 a 3 Elfed Jones
Oen Fenyw
2 Trefor Jones
Cilwobr
Trefor Jones

Ŵyn Tewion
Dan 32 Kg
3 Dylan Morgan a'r teulu, Alltgoch
Dros 32 kg
3 Gwion Evans, Tanllan
Ŵyn Mynydd
1 a 3 Enoc a Dewi Jenkins
2. Dylan Morgan a'r teulu

Pencampwr Ŵyn Mynydd
Enoc a Dewi Jenkins

Ieir
Unrhyw croesfrid (plant 15 oed ac iau)
2 a 3 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll

Hwyaid
Brid ysgafn
2 John Jenkins, 12 Dôl Pistyll
Plant
1 a 3 Becca Fflur
2 Elen Lloyd Williams, Moelgolomen
Arddangosyn gorau o dan 16 oed
Becca Fflur

Cŵn
Ci neu ast (6-12 modfedd)
1 Nick Bryan, Minafon
3 Annie James, Tŷ Twt
Ci neu ast heblaw am gi hela
1 Natasha Davies, Maesyderi
Ci Defaid
3 Becca Davies, Lletyifanhen
Ci/ast dan 12 modfedd
3 Ffion Southgate, 84 Maesyderi
Dros 12 modfedd
3 Nick Bryan
Tywysydd Dan 12 oed
3 Brandon Kelly, Maesyderi
Dros 12
2 Nick Bryan
Cyflwr Gorau
3 Nick Bryan
Mwngrel neu gi croes
2 Nick Bryan
3 Nicola Myring Thomas, Croesawdy
Cynffon yn siglo fwyaf
1 Steve Clarke, Davmor Garage

Anifail Anwes
2 Heledd Davies, Gwynfryn
3 Sion Myring-Thomas, Croesawdy

Cneifio
Peiriant
1 Dewi Jenkins
2 Rhydian Evans
3 Gwion Evans
CFfI
2 Dewi Jenkins

PENCAMPWYR Y SIOE
Ceffylau
Cobiau Adran D
Glyn Jones, Aberhosan
Cobiau Adran C
Gillian a Ioan Evans, Llanbadarn
Merlen Mynydd Gymreig ac Ebol
Felicity Willis, Banc y Darren
Arddangosiad gorau (dosbarthiadau 1-29)
Hannah Parr, Tregaron
Dan 2 flwydd oed
D G Morgan & D A Lewis, Blaenplwyf
Merlen Mynydd
Hannah Parr
Merlen Mynydd Adran B
D G Morgan & D A Lewis
Ceffylau Merlota
Megan Williams, Borth
Helfarch
Eiry Bonner, Llanbadarn
Hurfeirch
M J Muir, Talgarreg
Lliw a Palomino
Eiry Bonner
Mynydd a Gweundir
Hannah Parr
Bridio Merlod Marchogaeth
Pippa Griffiths, Ffair Rhos
Adran y Plant a Phencampwr y Sioe
Hannah Parr
Ceffylau Gwedd
Elfed a Louise Davies, Castell Newydd Emlyn
Ceffylau Gwedd: Stalwyn
David Davies, Aberffrwd

Gwartheg
Da Duon
Ken Ellis a'i feibion, Bryncrug
Da Bîff
Dafydd Guto Davies, Llangwyryfon

Defaid
Defaid Duon
Glenda Hughes, Nantlle
Torwen
Rhydian Davies, Llanfynydd

Penfrith
Tom Evans, Llanfiangel y Creuddyn
Bryd Mynydd Arall
Aled Llŷr Thomas, Swyddffynnon
Jacob
Mark Wakelin, Llanddewi Brefi
Suffolk
Teifion Morgan, Aberteifi
Charollais
Geraint a Esyllt Price, Llanilar
Texel
Aled Llŷr Thomas
Balwen
Meinir Howells, Capel Isaac
Beltex
Hefin a Ruth Hughes, Derwenlas
Bridiau Pur Eraill
Mrs J Hurst, Stourport on Severn
Prin
Keith Davies, Felin Fach
Ŵyn Tewion
Dai Evans, Cefnllwyd

Pencampwr y Defaid
Geraint a Esyllt Price (Charollais)
Cilwobr
Teifion Morgan (Suffolk)

Ieir
Rhys James, Bronant
Hwyaid
C Cookson, Drenewydd

Geifr
Llŷr Giffith, Llangurig

Cŵn
M Lewis, Talsarn
Liz Mathias, Aberaeron
Tywysydd Ifanc: Bunny Mathias, Ffos y ffin

Cneifio
Llaw
Gwynros Jones, Dolwyddelan
Peiriant CFfI
Dion Huws, Llangwm, Corwen

CANLYNIADAU SIOE TAL-Y-BONT

Canlyniadau'r Babell – enillwyr lleol yn unig

COGINIO

SBWNG WEDI EI HADDURNO
1 Liz Roberts, Maesyderi, 2 Jo Fothergill
CACEN FFRWYTHAU
1 Nia Evans, Rhiwlan, 2 Janet Jones, Llwynglas
CACEN LEMWN
1 Mai Leeding
CACEN FORON
1 Liz Roberts, 3 Mai Leeding
SBWNG SIOCLED
3 Janet Jones
BARA BRITH
1 a 2 Janet Evans, Tre'r-ddôl, 3 Janet Jones
TORTH GARTREF
1 Mick Fothergill, Tal-y-bont
4 SGON
1 a 2 Janet Evans, Tre'r-ddôl
PICE AR Y MAEN
1 a 2 Betsan Siencyn, Tanrallt
3 Beti Wyn Davies, Taliesin
PEI MERINGUE LEMWN
1 a 2 Marion Evans
CACEN GAWS HEB EI CHOGINIO
2 Nia Evans, 3 Valerie Deaville, Tal-y-bont
6 LEICEC
1 Janet Jones
FY HOFF GACEN
1 Claire Fowler, Tal-y-bont, 2 Nia Evans

FFLAN SAWRUS
1 Beti Wyn Davies, 2 Marion Evans, 3 Janet Jones
TARTEN FFRWYTHAU
1 a 2 Marion Evans, 3 Betsan Siencyn
4 FFLAPJAC
1 a 2 Siwan Haf Evans, Pantcoch, 3 Quentin Cruse, Cerrig Mawr, Bont-goch
FY HOFF BWDIN
2 Beti Wyn Davies, 3 Jane Bailey, Bontgoch
CYSTADLEUAETH I WRYWOD
1 Marc Richards, Rhiwlan, 3 Elgan Evans, Pantcoch

CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU YN YR ADRAN GOGINIO
Claire Fowler, Tal-y-bont

CYFFEITHIAU
MARMALED
1 Nia Evans
JAR O JAM FFRWYTHAU MEDDAL
1 Janet Jones
JAR O JAM FFRWYTHAU GYDA CHARREG
2 Mair Rowlands, Erglodd
JAR O JELI FFRWYTHAU
2 Helen Hicks, Llancynfelyn
JAR O GEULED LEMWN
2 Janet Jones

JAR O BICL CYMYSG
1 Helen Hicks, 2 Janet Jones, 3 Sharon Lewis, Tre'r-ddôl
DYSGL FACH O PATE
1 Jane Bailey, Nia Evans
POTEL O GORDIAL
1 Jo Fothergill, 2 Sharon Lewis, 3 Nia Evans
POTEL O WIN GWYN MELYS
1 Sharon Lewis
POTEL O WIN COCH MELYS
3 Sharon Lewis
POTEL O WIROD FFRWYTHAU
1 Betsan Siencyn 3 Sharon Lewis
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU
Janet Jones

GWREIDDIAU A GRONYNNAU
BELEN O WAIR DÔL
3 Ynyr Siencyn, Tanrallt
TYWARCHEN ORAU
1 Martin James, Cerrigcyrannau Isaf

CYNNYRCH GARDD
1 SYPYN O DOMATOS
2 Jenny Fothergill
2 GIWCYMBYR
2 Betty Jenkins, Pengwern
CASGLIAD O BERLYSIAU
1 a 2 Helen Hicks
3 CORBWMPEN
1 Mai Leeding, 2 Gwen Hughes, Coetmor, 3 Elfen Jones, Berthlwyd
4 TATEN
1 a 2 Helen Hicks, 3 Gwen Hughes
3 COESYN RIWBOB
1 Mai Leeding, 2 Helen Hicks, 3 Elfed Jones
4 FFA DRINGO
1 a 2 David Jones, Berthlwyd, 3 Jenny Fothergill
CASGLIAD O LYSIAU AR HAMBWRDD
1 Claire Fowler, 2 Helen Hicks, 3 Jenny Fothergill

FFRWYTHAU
3 AFAL BWYTA
2 Sarah Reisz a Barry Wise, Tal-y-bont, 3 Mai Leeding
3 AFAL COGINIO

2 Cathryn Lloyd Williams, Llancynfelyn, 3 Rebecca ac Arthur, Mur Mawr
3 PEREN FWYTA
1 Elizabeth Evans, Taliesin, 3 David Jones
3 EIRINEN
3 Mai Leeding
6 EIRINEN DDU
1 Sarah Reisz a Barry Wise, 2 Elfed Jones, 3 David Jones

GOSOD BLODAU
PATAGONIA – Dathlu Canrif a Hanner
1 Christien Gilbert, Tre'r-ddôl
MEWN CRAGEN
1 Liz Roberts, 2 Chritine Gilbert, 3 Beti Wyn Davies
Arddangosfa ar Deilsen
1 Christine Gilbert, 2 Beti Wyn Davies
STOROM AWST
1 Christien Gilbert, 2 Beti Wyn Davies, 3 Ffion Hicks, Llancynfelyn
FY ARWR
1 Beti wyn Davies, 2 Christine Gilbert
MEWN BASGED
1 Beti Wyn Davies 2 Christine Gilbert
Trefniant i gynnwys dim blodau
1 Beti Wyn Davies, 2 Christine Gilbert
ELFEN O SYNDOD – i'w baratoi fore'r sioe
1 Ceri Farrah, Tal-y-bont 2 Daisy Leonard d/o Bronygan, 3 Sandra Laverty

BLODAU
6 MATH O FLODAU'R ARDD WEDI'U HENWI
1 Rhian Nelmes, Dolau Gwyn, 3 Sarah Reisz a Barry Wise
CYNHWSYDD O FLODAU BLYNYDDOL
2 Mai Leeding
SUDDLON MEWN POT
3 Barry Thomas, Eglwys Fach
PLANHIGYN DAIL Y TŶ MEWN POT
2 Mai Leeding
PLANHIGYN TŶ MEWN POT YN EI FLODAU
3 Mai Leeding
BEGONIA Â GWRAIDD ODDFOD
1 a 2 Sarah Reisz a Barry Wise
FFIWSIA YN EI FLODAU
2 Sarah Reisz a Barry Wise
GARDD FACH AR BLÂT
1 Ffion Hicks, 3 Nia Benham, Llancynfelyn
CASGLIAD O FLODAU GWYLLT
2 1 Ffion Hicks
TUSW YSGWYDD
2 Beti Wyn Davies,
BASGED GROG YN EI BLODAU
1 Becca Fflur Fleming-Jenkins, 2 Sarah Reisz a Barry Wise, 3 Mai Leeding
BLWCH FFENESTR YN EI FLODAU
1 Becca Fflur, 2 Mai Leeding
CWPAN AM Y MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN FLODAU – LLEOL
Sarah Reisz a Barry Wise
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU YN NOSBARTH 94 – Becca Fflur

FFOTOGRAFFIAETH LLIW
ARFORDIR
1 Owain Hammonds, Bontgoch, 2 Beti Wyn Davies,
ADEILADAU
1 Owain Hammonds, 2 R Haynes, Tal-y-bont, 3 Beti Wyn Davies
MACHLUD
1 Owain Hammonds, Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen, Bontgoch, 3 Nia Williams, Maesyderi.
TEULU
1 a 2 Catrin M S Davies, 3 Alun Elidyr
PLANT YSGOLION CYNRADD
1 Glain Llwyd, 3 Mirian Llwyd, Pentan, Llandre
FFOTOGRAFFIAETH DU A GWYN
1 Elwyn Hammonds, Bontgoch, 3 Hefin Jones, Prifathro Tal-y-bont
TYWYDD
1 Rhodri Lloyd-Williams, 2 Owain Hammonds, 3 Beti Wyn Davies
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU YN YR ADRAN FFOTOGRAFFIAETH
Owain Hammonds

MÊL
Jar 2bwys o FÊL YSGAFN
1 Owain Hammonds

CREFFTAU
ARWYDD Tŷ
3 Heledd Davies, Gwynfryn
EITEM O WAITH COED
1 Barry Wise, 2 Michael Deaville, Tal-y-bont
TEGAN I BLENTYN
1 Jenny Fothergill
EITEM MEWN CROCHENWAITH
2 Rhian Williams-Watkins, Henllys, 3 Jo Fothergill
PAENTIAD MEWN UNRHYW GYFRWNG
1 Cath Maguire, Tal-y-bont
PAENTIAD MEWN UNRHYW GYFRWNG (LLEOL)
1 Mick Fothergill, 2 a 3 Cath Maguire
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU YN YR ADRAN GREFFTAU
Barry Wise

GWAITH LLAW SAMPLER
1 Betty Jenkins, 2 a 3 Dilys Morgan, Alltgoch
UNRHYW EITEM MEWN GWAITH PWYTH CROES
1 Betty Jenkins, 2 Dilys Morgan
CLUSTOG
1 Dilys Morgan, 3 Betty Jenkins
DILLEDYN WEDI EI WEU Â LLAW
3 Myfanwy James, Tal-y-bont
UNRHYW EITEM MEWN COTWM CROSIO
1 a 2 Dilys Morgan
UNRHYW EITEM MEWN GWAITH CYNFAS
1 Dilys Morgan, 2 Betty Jenkins, 3 Jenny Fothergill
ADDURN NADOLIG
1 a 2 Dilys Morgan
EITEM MEWN GWAITH CYFRIF
1 a 3 Betty Jenkins, 2 Dilys Morgan
CERDYN CYFARCH
1 a 2 Dilys Morgan, 3 Betty Jenkins
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU YN YR ADRAN GWAITH LLAW – Betty Jenkins
CWPAN AM Y MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN GWAITH LLAW – Dilys Morgan

CYNNYRCH LLAETHDY
4 ŴY BANTAM
1 Margaret Jenkins, Tyngraig

PLANT YSGOL
CYLCH MEITHRIN
1 Swyn Jones, Tal-y-bont, 2 Martha Cosson, Taliesin, Lela Jenkins, Tal-y-bont
DOSBARTH DERBYN
1 Hopcyn Cosson, Taliesin, 2 Bleddyn Lewis, Talybont, 3 Rhodri Edwards-Davies, Gwynfryn
BLWYDDYN 1
3 Carys Watkins, Henllys
BLWYDDYN 2
1 Ryan Evans, Tal-y-bont, 2 Glain Jones, Tal-y-bont, Noah Berry, Taliesin
BLWYDDYN 3 a 4
1 Leon Foulston, Tal-y-bont, Beca Llwyd, Poppy Roberts
BLWYDDYN 5 a 6
1 Ruby Indeka, Tre'r-ddôl, 2 Heledd Edwards Davies, Gwynfryn, Elinor Edwards Davies, Gwynfryn
PLANT YSGOL UWCHRADD
SAIG YN DEFNYDDIO REIS
1 a 2 Ffion Nelmes, Dolau Gwyn
BOCS TOCYN IACH
1 a 2 Ffion Nelmes, 3 Betsan Siencyn
4 CACEN FACH
1 Ffion Nelmes, 3 Heledd Davies
EITEM O EMWAITH BWYTADWY
1 a 3 Ffion Nelmes, 2 Betsan Siencyn
FFOTOGRAFF ARDAL Y SIOE
1 a 3 Ffion Nelmes, 2 Elwyn Hammonds
CERDYN CYFARCH
1 Ffion Hicks, 3 Heledd Davies
TEILSEN WEDI EI HADDURNO
2 a 3 Ffion Nelmes
EITEM WEDI EI GWNEUD YN YR YSGOL
1 Ffion Nelmes, 2 Betsan Siencyn
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU – Ffion Nelmes
CWPAN AM Y MARCIAU UCHAF – Ffion Nelmes

CLWB FFERMWYR IFAINC
PICNIC 1 DDAU
1 Betsan Siencyn
4 SGON GAWS
3 Dylan Wyn Benjamin
FY HOFF BWDIN
1 a 2 Siwan Haf Evans, 3 Betsan Siencyn
QUICHE LORRAINE
1 a 2 Siwan Haf Evans, 3 Betsan Siencyn
CERDYN CYFARCH
3 Betsan Siencyn
EITEM GWAITH COED
1 a 2 Gareth Jenkins, Ynyseidol
FFOTOGRAFF – ANIFAIL
1 Betsan Siencyn
EITEM GWAITH METEL
1 Betsan Siencyn
EITEM O EMWAITH YN DEFNYDDIO DEUNYDDIAU WEDI EU HAIL-GYLCHU
1 Betsan Siencyn
CWPAN AM Y MARCIAU UCHAF
Betsan Elenid Siencyn
CWPAN AM YR ARDDANGOSFA ORAU
Gareth Jenkins

Penillion i Afon Leri

Yn cychwyn tymor yr hydref eleni, bydd blwyddyn gron o weithgareddau creadigol yn cael eu cynnal yn ardal Tal-y-bont. Enw'r cynllun arbennig hwn yw Cymerau, ac mae wedi ei drefnu gan nifer o brifysgolion, gydag Aberystwyth a Bangor yn eu plith. Y nod yw comisiynu nifer o artistiaid lleol i archwilio ein perthynas ni gyda dŵr.

Felly dyma ofyn am ychydig o gymorth gan frodorion yr ardal. Canu a chwarae gitâr ydi fy mhethau i, ac fel llawer o artistiaid 'gwerinol' y dyddiau yma rwyf ar adegau wedi tynnu ar ein cynhysgaeth o hen benillion a chaneuon traddodiadol i ysbrydoli gwaith newydd. Mewn geiriau eraill, rwy'n hen gyfarwydd â chanu geiriau pobl eraill. A dyna yn ei grynswth yw nod fy mhrosiect i, sef galw am eiriau, am benillion newydd i'w canu.

Oes yna rai ohonoch chi fydd â diddordeb cyfrannu ambell bennill neu ddau am y Leri? I'r rheini ohonoch chi sydd erioed wedi gwneud ond sydd awydd rhoi tro arni, mae cyfansoddi penillion yn beth haws na'r disgwyl, yn enwedig yn y dull traddodiadol. Os ewch chi i wefan y cynllun, *gwilmor.com*, fe welwch chi wahanol ymarferiadau i'ch tywys chi drwy'r broses o lunio pennill syml. A dyna ydi'r peth, fel y cewch chi weld mae llawer o'r hen benillion yn bethau syml, cyffredin a phob dydd, cofnodion o brofiadau beunyddiol pobl. Dim byd rhy ffansi.

I'r rheini ohonoch chi sy'n hen lawiau ar farddoni, oes rhywbeth yng nghefn y drôr fyddai'n addas? Neu hoffech chi lunio rhywbeth newydd, efelychiad efallai o *Yr Eneth Gath ei Gwrthod*, neu *Tra Bo Dau*? Mae ffurfiau'r delyneg yn perthyn yn agos i'r hen bennill, ac mae rhai o hoff gerddi'r genedl yn pwyso'n drwm ar arddull a naws y traddodiad canu penillion. Does dim yn erbyn cyflwyno darnau caeth, chwaith, i'r rheini sy'n giamstars ar englynion a chwpledi'r cywydd.

Mae hefyd yn fwriad trefnu cyfres o deithiau cerdded ar hyd glannau'r Leri ar bnawniau Sadwrn ym mis Hydref y 10fed a'r 24ain, a Thachwedd y 7fed a'r 21ain (gweler y wefan *gwilmor.com* am fanylion). Yn ystod y teithiau bydd cyfle i glywed rhai o'r caneuon newydd (ie, fe fyddaf yn canu yn fy welis rhywle i fyny'r topiau 'na), a chael gwybod ychydig am eu ffurf a'u cynnwys. Os ydym yn ddigon lwcus, bydd cyfle hefyd i gwrdd â llenorion profiadol a chael cyngor ar y grefft o greu.

Erbyn tua chychwyn Mis Rhagfyr y gobaith yw bydd cnwd da o benillion. Yn ffodus iawn, mae'r Prifardd Hywel Griffiths wedi cytuno i olygu casgliad o'r penillion, gyda golwg ar ei argraffu yn bamffled. Erbyn hynny byddaf i a fy chwaer, Siwan, wedi cael cyfle i osod nifer o'r penillion i gerddoriaeth (gweler enghreifftiau ar y wefan), digon i ni gynnal cyngerdd yn y Llew Gwyn yn Nhalybont. Os oes digon o ddiddordeb efallai cawn greu CD o'r gwaith hefyd.

Os oes gennych chi ddiddordeb gwybod mwy, neu jest awydd dod am dro a gwrando ar ganeuon newydd, ewch i'r wefan *gwilmor.com*.

Gwilym Morus-Baird

Trafod Salwch Meddwl

Un o'r llyfrau newydd a gyhoeddwyd ym mis Awst oedd *Gyrru Drwy Storom*, a gafodd ei olygu gan Alaw Griffiths, Y Garth, Tal-y-bont. Casgliad o ysgrifau gan nifer o bobl sy'n trafod eu profiad o ddelio ag iselder a salwch meddwl ydyw, ac mae gan Alaw ei hun ysgrif sy'n trafod ei phrofiad hi o frwydro yn erbyn yr iselder a brofodd yn sgil geni ei merch, Lleucu. Mae sawl un o'r cyfranwyr yn trafod profiadau personol eithaf dirdynnol. Mae gan yr awdures Caryl Lewis, sy'n byw yng Ngoginan, ysgrif yn y llyfr lle mae'n trafod yn onest y cyfnod anodd yr aeth drwyddo ar ôl geni ei hail blentyn. Ar un adeg, yr oedd cyflwr ei meddwl mor ddrwg fel ei bod yn cael pyliau o deimlo ei bod eisiau niweidio'i merch. Gobaith Alaw fel golygydd yw y bydd rhannu profiadau fel hyn o gymorth i bobl eraill sy'n dioddef o iselder, ac yn help i'w ffrindiau a'u teuluoedd ddeall natur y salwch. Beth mae'r llyfr yn ei ddangos yw fod iselder yn salwch llawer mwy cyffredin nag yr ydym yn ei feddwl, gan fod un o bob pedwar ohonom, yn ôl un amcangyfrif, yn dioddef o'r cyflwr. Neges gadarnhaol y llyfr hwn yw fod yna gymorth ar gael a bod modd gwella o'r salwch. Mae'r llyfr ar gael o wasg Y Lolfa a'i bris yw £6.95.

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

Sefydliad Y Merched Taliesin

Bu'r merched yn brysur yn ystod y misoedd diwethaf yn mwynhau nifer o weithgareddau gyda'n gilydd. Ymweld â stad yr Hafod i gael blas ar fywyd yno 100 mlynedd yn ôl, yng nghwmni yr is-reolwr gan ein tywys ar hyd hen lwybrau'r Hafod i brofi golygfeydd godidog Cwm Ystwyth a Perian. Cafwyd paned yng Ngwesty'r Hafod ym Mhontarfynach cyn dychwelyd am adre. Ar ddechrau Gorffennaf, Mair Jones o Lanilar oedd yn rhoi canllawiau i ni ar sut i arddangos gwahanol fwydydd mewn sioeau, ynghyd â chyfle i flasu bisgedi oedd wedi eu paratoi ar ein cyfer a gweld eitemau diddorol o'i gwaith llaw cywrain.

Helfa drysor wnaeth ein denu i ymuno hefo deg tim o'r Sir ar nos Wener 10fed o Orffennaf. Buom yn cerdded o gwmpas Llanon. Wel dyna agoriad llygaid yn wir, pawb yn mwynhau yn chwilio am 40 o 'drysorau' cyn dychwelyd am bwffe yn y pentre - noson fendigedig . Yr wythnos ganlynol, ymuno wedyn hefo 120 o ferched y Sir yng Nghinio'r Canmlwyddiant yng Ngwesty'r Cliff yng Ngwbert. Lle bendigedig ar ei newydd wedd a chwmni da i fwynhau y wledd.

I Sir Fôn yr aeth ein gwibdaith flynyddol. Aeth llond bws ohonom yn gynnar fore Sadwrn y 18 Orffennaf. Aros am baned yn Llanfair-pwll cyn mynd ymlaen i Blas Newydd ar lan y Fenai ac yna i ganolfan newydd sbon Halen Môn i weld y broses o gynaeafu'r halen o'r Môr gerllaw. Lle hynod ddiddorol a phawb yn rhyfeddu at y cynnyrch eang a oedd yn cael ei allforio i 22 o wledydd dros y byd ac ar gael yn y siop newydd yn y Ganolfan. I ddiweddu'r diwrnod arbennig, arhosom am swper blasus yn Yr Afr, Glandwyfach cyn troi am adre.

Bu Beti Wyn a Christine, yn y sioe fawr yn Llanelwedd a sioe Tal-y-bont yn cystadlu yn yr adran gosodiadau blodau a chrefftau a chael llwyddiant yno a bu i nifer o'r aelodau fwynhau y sioe haf yn Theatr y Werin ar nos Wener, 24ain o Orffennaf.

Ar y 1af o Fedi, roedd y cyfarfod yng ngofal yr aelodau a chafwyd arddangosfa a sgwrs am hen drysorau sydd hefo ni yn y tŷ. Gwnaed y trefniadau terfynol i helpu hefo'r te yn y Sioe Arddwriaethol ar y 5ed o Fedi a Chanmlwyddiant Sefydliad y Merched yn Llanfach ar bnawn Mercher y 16eg o Fedi.

CANLYNIADAU RASUS CŴN SIOE TAL-Y-BONT

Dosbarth 1
Ras i Gŵn Defaid
1af Anwen Jenkins – Moss
2il Steffan Rattray – Seren
3ydd Sara Jenkins – Seren

Dosbarth 2
Ras i Ddaeargwn
1af Ilan Jones – Twm
2il Ilan Jones – Nel
3ydd Bedwyr ac Ynyr Siencyn – Pero

Dosbarth 3
Ras i Filgwn neu Chŵn Potsiwr
1af Llŷr James – Sunny
2il Owain James – Boost
3ydd Gwion Evans – Millie

Dosbarth 4
Ras i Filgwn bach
1af Kate O'Callaghan – Pippa

Dosbarth 5
Ras i unrhyw frid arall coes byr
1af Billy Swanson – Molly
2il Anna Sistern – Flash

Dosbarth 6
Ras i unrhyw frid arall coes hir
1af Andy Bakewell – Sam
2il Chris Fry – Sol
3ydd Chris Fry – Star

Dosbarth 7
Ras i ddisgyblion ysgol gynradd
1af Ynyr Siencyn – Pero
2il Becca Fflur – Maddie
3ydd Demi Jenkins – Max

Dosbath 8
Ras i ddisgyblion ysgol uwchradd
1af Steffan Rattray – Seren
2il Bedwyr Siencyn – Pero
3ydd Dylan Wyn – Nel

Dosbarth 9
Ras i ferched a'u cŵn
1af Charlotte Gjerlov – Sam
2il Sarah Gearie – Hattie

Dosbarth 10
Ras i ddynion a'u cŵn
1af Siôn Southgate – Max
2il Robin – Max
3ydd Gareth – Archer

Ras olaf y diwrnod
1af Kate O'Callaghan – Pippa

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:

cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol,cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Y Cylch Meithrin

Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Tal-y-bont. Ein nod yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant 2-4 oed. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy chwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig. Rydym ar agor Llun – Iau, 9yb–12yp a cheir gofal rhagorol am bris rhesymol! Am gostau, gwybodaeth bellach neu sut i wneud cais am le cysylltwch â: cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk neu chwiliwch ni ar Facebook.
Mae'r Cylch yn chwilio am **Arweinydd** ymroddgar, cydwybodol, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain pob agwedd o waith y Cylch. Dylai ef/hi fod yn rhugl yn y Gymraeg. Gofynnir am gymhwyster blynyddoedd cynnar cydnabyddedig addas ar Lefel 3 neu uwch ynghyd â phrofiad perthnasol i gymryd gofal o gylch.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk neu ewch i wefan Mudiad Meithrin o dan 'Swyddi' i wneud cais (http://www.meithrin.cymru/swyddi/). Y dyddiad cau yw 18 Medi.

Sioe Tal-y-bont

Eleni, cafwyd presenoldeb y Cylch Meithrin yn Sioe Tal-y-bont. Gwelwyd torf dda yn prynu cacennau a chynnyrch cartref gyda'r plant yn mwynhau cael eu hwynebau wedi'u peintio fel pob math o anifail! Mae yna ddiolch enfawr i Fal Jenkins am ei phresenoldeb ar y stondin drwy'r dydd ac am fynd o amgylch y pentref yn holi am gyfraniadau. Bron nad oedd angen bwrdd mwy o faint arnom er mwyn dal yr holl ddanteithion! Diolch i drigolion y pentref a thu hwnt am fod mor barod i gyfrannu cacennau, llysiau a ffrwythau. Mae diolch yn mynd i'r rhieni a wnaeth helpu allan a chyfrannu eu hamser i fod yn bresennol ar y stondin yn gwerthu cacennau ac yn peintio wynebau. Llwyddwyd i godi £206.90 – swm arbennig! Diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi!

Ffarwél i Anti Shân

Byddwn yn ffarwelio gyda Mrs Shân Evans cyn diwedd mis Medi. Mae Anti Shân wedi bod yn gweithio gyda'r Cylch a'r Ysgol dros 13 mlynedd bellach a byddech yn cytuno y bydd y ddau le yn dipyn gwahanol hebddi. Bydd y plant, staff a'r rhieni yn gweld ei heisiau yn fawr. Dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.
Rydym am gynnal parti ffarwél iddi ar y cyd gyda'r Ysgol bore Iau, 17 Medi (ei diwrnod olaf) yn neuadd yr Ysgol rhwng 10.30yb ac 11.30yb. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb sydd am ddod i ddweud ffarwél iddi ac i hel atgofion! Dewch yn llu!
Byddai'r Ysgol a'r Cylch Meithrin yn falch o dderbyn unrhyw roddion neu gyfraniadau i ddangos gwerthfawrogiad i Anti Shân am ei blynyddoedd o wasanaeth a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y parti.

Cyflwyno siec

Diolch yn fawr iawn i deulu'r diweddar Steven Southgate am y siec hael a dderbyniwyd yn dilyn twrnament dartiau coffa Steven. Yn y llun gwelir Lela a Hari sef dau o or-neiaint Steven yn cyflwyno siec o £270 i'w ffrindiau yn y Cylch Meithirn.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Seiclo i godi arian

Yn ystod mis Awst fe wnaeth Steffan Roberts, Mynydd Gorddu, a Hefin Jones, pennaeth yr ysgol seiclo bron i ddau gan milltir dros dridiau i Sir Benfro ac yn ôl er mwyn codi arian i Apêl Elain sydd bellach wedi codi dros £100,000 i elusennau dros y blynyddoedd diwethaf.

Proms Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i blant Blwyddyn 6 am berfformiadau cerddorol a lleisiol arbennig yn y Proms blynyddol. Cafwyd cyngerdd gwirioneddol wych gyda Chanolfan y Celfyddydau yn llawn dop.

Priodas Hapus

Llongyfarchiadau mawr i Miss Morgan a Dylan ar eu priodas dros yr haf. Pob dymuniad da i chi oddi wrth bawb yn yr ysgol.

TREIALON CŴN DEFAID TAL-Y-BONT.

Cynhaliwyd ein treialon, fel arfer, ar y dydd Mercher cyntaf yn Awst ac unwaith eto yn Llety Ifan Hen drwy ganiatâd parod y teulu. Roedd y diwrnod yn ddigon tebyg i'r hyn rydym wedi ei gael drwy fis Awst – yn wyntog a chydag aml gawod drom ond fe gadwodd y niwl i ffwrdd.

Dechreuwyd y treialon yn fuan wedi wyth o'r gloch y bore a bu'r cystadlu yn gyson dan wedi naw yr hwyr. Roedd nifer y cystadleuwyr cymaint fel y bu raid i rai adael heb gael cyfle i redeg eu cŵn. Unwaith eto roedd nifer fawr wedi dod o'r Cyfandir – o'r Eidal, Ffrainc, yr Iseldiroedd a Norwy.

Ein beirniad eleni oedd Mr. Daniel Jarman o Langwyryfon gyda Mrs. Jarman yn cofnodi'r pwyntiau. Ar ddiwedd y dydd diolchodd ein cadeirydd, Dafydd Jenkins Tanrallt iddynt a chyflwynodd y llywyddion sef Dilwyn a Marion Evans Tynant a gwahoddodd hwynt i gyflwyno'r gwobrau.

Enillydd y cawg rhosynnod er cof am Richard Edwards Lletyllwyd am y rhediad gorau yn ystod y dydd oedd Irwel Evans o Ystrad Meurig gyda'i gi Bob yn rhedeg yn y dull cenedlaethol. Enillwyd y chwech dosbarth arall i gyd gan Dewi Tyngraig, pump ohonynt (agored a'r nofis dull De Cymru, nofis dull cenedlaethol, dosbarth cyfyngedig i Geredigion a'r dosbarth i aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuanc) gyda'i gi Moss, ac yna y dosbarth lleol a gynhaliwyd y noson cynt, gyda'r llywyddion yn beirniadu, gyda Nel.

Yn hwyr y prynhawn cynhaliwyd cystadlaethau cneifio gyda'r llywydd, Dilwyn Tynant yn beirniadu. Dyfarnodd y gwobrau fel a ganlyn:

Dosbarth agored: cyntaf i John James, Penbanc, ail Owain James, Penbanc a thrydydd i Dewi Jenkins.

Dosbarth i aelodau C.Ff. I.: cyntaf i Owain James, ail i John James a thrydydd i Dewi Jenkins.

Dosbarth i aelodau C. Ff. I. dan 21 oed: cyntaf i Llion Harries o Grymych, ail i John James a thrydydd i Ifan Morgan o'r Mwnt.

Ieuan Morgan

Ysgol

Gweithgareddau Diwedd Tymor

Mae'n amlwg fod plant Ysgol Tal-y-bont wrth eu bodd yn gwisgo dillad ffansi. Fel rhan o'r thema, cafodd plant y Cyfnod Sylfaen barti môr-ladron oedd hefyd yn gyfle i gofio bod eleni yn gan mlynedd ers geni'r awdur poblogaidd T Llew Jones. Ac yna ar ddiwrnod olaf y tymor, dymuniad plant Blwyddyn 6 oedd cael parti gwisg ffansi wrth ffarwelio gyda ni – da iawn chi am eich ymdrechion.

Pob hwyl i blant Blwyddyn 6 y llynedd wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgolion uwchradd a llongyfarchiadau mawr i'r cyn-ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ennill gwobrau mewn sioeau ac eisteddfodau dros yr haf hefyd.

Ysgol

Mabolgampau a Barbeciw

Cynhaliwyd ein mabolgampau a barbeciw blynyddol ar ddiwedd tymor yr haf. Tîm Mochno oedd yn fuddugol eleni. Capteiniaid Mochno oedd Harvey Brown, Poppy Kerridge a Ruby Indeka. Enillwyr y tariannau am y pwyntiau uchaf oedd: Alice Groves a Maisie Foulkes (Merched Cyfnod Sylfaen), Dylan Kerridge (Bechgyn Cyfnod Sylfaen), Grace Davies a Ruby Indeka (Merched Cyfnod Allweddol 2) a Finn Langley (Bechgyn Cyfnod Allweddol 2). Ar ôl y mabolgampau cafwyd ein barbeciw. Ffarweliwyd â'n disgyblion Blwyddyn 6 a chyflwynwyd rhodd fechan iddynt. Dymunwn bob hwyl i Jasmin, Poppy, Grace, Ruby, Rowan, Ben a Harvey yn ysgolion Penglais a Phenweddig.

Ffarwelio

Ffarweliwyd hefyd â Miss Fflur Edwards ar ddiwedd y tymor. Dymunwn bob lwc iddi wrth iddi ddechrau cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion Cynradd ym Mhrifysgol Bangor. Bydd hi'n gwneud athrawes wych!

Tal-y-bont

Tripiau Diwedd Tymor

Mwynhaodd pawb ein tripiau ysgol eleni eto. Aeth plant hŷn yr ysgol i Fferm Folly yn Sir Benfro a phlant y Cyfnod Sylfaen i Quackers. Diolch yn fawr iawn i Gymdeithas Rieni'r ysgol am noddi'r tripiau hyn. Aeth plant hŷn yr ysgol ar ymweliad arbennig i Wersyll yr Urdd Caerdydd hefyd. Buom yn ymweld ag Amgueddfa Lofaol Big Pit, Y Cynulliad, Dr Who Experience, Techniquest,

Ysgol Eco

Cyn diwedd y gwyliau, cafodd y plant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol a rhyngwladol. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle gwych i weithio gyda chwmni pypedau Vagabondi i ddysgu am y gylchred ddŵr, daeth Eurig Salisbury i weithio cerdd gyda dosbarth Miss Morris, a chawsom ymweliad arbennig gan Barbra o Malawi a Frank o Ghana i ddysgu ychydig am fywyd ac addysg yn y gwledydd hynny.

Presenoldeb

Llongyfarchiadau mawr i Kelsey, Celsea a Becca am gael tystysgrifau presenoldeb o 100% dros yr holl flwyddyn – arbennig ferched.

Mabolgampau a Barbeciw'r Ysgol

Llongyfarchiadau mawr i dîm Ceulan am ennill y mabolgampau blynyddol. Llongyfarchiadau hefyd i Cai, Seren, Hollie, Miriam, Emily, Tyler, a Lewys. Roedd hi'n brynhawn hyfryd gyda llawer iawn o rieni a ffrindiau'r ysgol yn cefnogi. Diolch yn fawr i Wyn Benjamin am ddechrau'r rasys ac i Anita Saycell am gyflwyno'r gwobrau.

Yna, gyda'r nos cynhaliwyd ein barbeciw, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd yn neuadd yr ysgol. Diolch yn fawr i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi ac i Mrs Jones a staff y gegin am bob cymorth ar y noson hefyd.

Aeth llawer o blant yr ysgol i gystadlu ym Mabolgampau'r Cylch ar ddiwedd y tymor hefyd. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr.

Llangynfelyn

Trip Ysgol

Aethom ar ein trip blynyddol eleni i Fferm Ffantasi. Cafwyd diwrnod arbennig o dda yn chwarae yn y sied chwarae, yn bwydo'r ŵyn bach, yn mynd ar y cychod a'r go-cartiaid a mynd o amgylch y fferm ar y trelar. Diolchwn yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y trip.

Llwyddiant Jasmin

Llongyfarchiadau i Jasmin Foster Leslie am ennill cystadleuaeth Garddwr Ifanc y Flwyddyn (Cyfnod Allweddol 2) gyda'r RHS. Aeth Jasmin a'i mam i ardd yr RHS yn Wisley i dderbyn ei gwobr o offer garddio a £250 o dalebau garddio i'r ysgol. Da iawn ti

Ysgol Llangynfelyn Mabolgampau'r Cylch

Aeth criw o'r plant i gaeau Ysgol Penweddig i gystadlu ym Mabolgampau Cylch Aberystwyth. Bu cystadlu brwd drwy'r dydd a'r uchafbwynt oedd ennill y Ras Gyfnewid i ysgolion dau athro. Da iawn chi'r Tîm Cyfnewid!

Ymweliad â Lerpwl

Aeth deg o blant Blynyddoedd 4, 5 a 6 gyda Mrs Nelmes a Mr Jones ar ymweliad deuddydd â Lerpwl. Buont yn ymweld ag ardal yr Albert Dock, y Cavern a'r ddwy gadeirlan yn y ddinas. Ar ôl bowlio 10 a swper hyfryd yn Frankie and Benny's cafwyd noson dda o gwsg yn y gwesty. Y diwrnod canlynol aethant i ymweld â'u ffrindiau yn ysgol Anfield Road. Daeth disgyblion Anfield Road i Ysgol Llangynfelyn ym mis Tachwedd gan fod plant o'r ysgol wedi bod yn ifaciwis yn ardal Llangynfelyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd bore hyfryd yn ymweld â'r ysgol gyda phlant o'r ddwy ysgol yn paentio darn mawr o gelf mewn siâp jig-so i fynd yn ôl i'r ysgol. Cyn mynd adre, ymwelwyd â stadiwm pêl-droed Anfield.

Colli cymwynaswr bro

Daeth y newydd am farw Goronwy Jones, Glasgoed, Tal-y-bont, ar ôl salwch byr fel ergyd ddechrau mis Mehefin. Roedd pawb yn methu â chredu bod un o gymeriadau mwyaf ffyddlon a chefnogol i bob achos da yn yr ardal wedi'n gadael. Bydd bwlch ar ei ôl ym Methel, ac mewn cymaint o gymdeithasau lleol. Gwasanaethodd am nifer o flynyddoedd fel Clerc y Cyngor Cymuned, a'i ofal yn fawr am faterion yn ymwneud â'r ardal. Trist iawn hefyd yw fod Tegwen wedi symud o Glasgoed at y merched yn y dref, lle caiff bob gofal, a dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd. Profiad chwith yn y Sioe eleni oedd peidio â gweld Goronwy a Tegwen yn cario cynnyrch i'r Babell Fawr, Goronwy yn cario cynnyrch yr ardd a Thegwen yn cario cynnyrch y gegin. Chwith hefyd yw gweld yr arwydd 'Ar Werth' ar Glasgoed. Does dim yn aros yr un fath, ond rhaid diolch am gyfraniad Goronwy a Thegwen i fywyd cymdeithasol yr ardal am gymaint o flynyddoedd.

Talwyd teyrnged i Goronwy yn ei angladd gan ei weinidog a'i gyfaill y Parch Richard H. Lewis, ac yr ydym yn ddiolchgar iddo am gael ei chynnwys yn y papur.

Goronwy Wyn Jones, 1929-2015

Taenwyd cwmwl o dristwch gwirioneddol dros Dal-y-bont a'r cyffiniau pan dorrodd y newyddion am farw sydyn Goronwy ddydd Sadwrn y 6ed o Fehefin, a hynny'n bennaf am ei fod yn gymaint rhan o'r gymuned a'r gymdeithas ac wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw i'r gymuned a'r gymdeithas honno. Yn wir dyna fu hanes Goronwy ar hyd y daith, sef mynd ati i fod yn rhan o`r gymdeithas a'r gymuned lle bynnag y digwyddai fod yn byw, gyda'r capel yn fan cychwyn bob tro.

Brodor o gyffiniau Bro Ddyfi oedd Goronwy, Aberllefenni yn benodol, ac wedi dyddiau ysgol gynradd yn lleol mynychodd Ysgol Uwchradd Tywyn. Treuliodd ddwy flynedd gyda'r RAF yn Morecome adeg y rhyfel ond gyda golwg ar yrfa trodd ei olygon i gyfeiriad y Comisiwn Coedwigaeth a chael prentisiaeth yno a olygodd dreulio cyfnod yng Ngoginan a dyna lle y cyfarfu â Thegwen, gyda'r capel yn allweddol yn hyn hefyd. Wedi cwblhau'r brentisiaeth yr oedd ar dir i gael tŷ gan y Comisiwn ac fe gafwyd un ym Mhenrhyn-coch. Dyma gyfnod ymaelodi yn Noddfa, Bow Street, a gwasanaethu fel Ysgrifennydd yr Eglwys rhwng 1957 a 1961. Symud wedyn i Bleddfa yn Sir Faesyfed, Llanon yng Ngheredigion, Llwydiarth yn Sir Ddrefaldwyn ac yna'n ôl i Geredigion, i Lanafan i ddechrau ac yna i Dal-y-bont.

Credaf fod modd crynhoi rhawd bywyd Goronwy o dan dri phennawd bras, sef teulu, capel a chymdeithas. Yr oedd y teulu'n golygu'r cyfan iddo, gyda Tegwen a'r merched yn dod gyntaf bob amser. Gofalodd amdanynt hyd eithaf ei allu a rhan fawr o'r gofalu hwnnw oedd ei fedrusrwydd fel garddwr yn darparu cynnyrch at ddefnydd y tŷ. Defod reolaidd ar adeg benodol o'r flwyddyn fyddai pori yng nghatalog Marshalls er mwyn dewis hadau ac ati! Yr oedd i'r capel le amlwg yn ei fywyd hefyd ac mae'n werth nodi i'r teulu cyfan ymaelodi mewn capel a bod yn weithgar yn y capeli hynny lle bynnag y buont. Yng nghyswllt yr ardal hon, bu ei ffyddlondeb i Fethel yn ddiarhebol a thros gyfnod o dros bymtheg mlynedd dim ond un oedfa yr wyf fi yn cofio iddo ei cholli, a hynny oherwydd pwl o salwch. Gwasanaethodd fel Diacon ym Methel, fel Arweinydd y Gân, ac fel weindiwr swyddogol y cloc (tasg y mynnodd ei chyflawni y dydd Mercher cyn ei farw). Yr oedd hefyd yn ddiarhebol ei brydlondeb ar adegau torri porfa. Yng nghyd-destun ehangach yr Ofalaeth bu'n Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau o'r dechrau cyntaf ac yng Nghyfundeb Ceredigion fe'i dyrchafwyd yn Llywydd yn 1990 a bu'n Drysorydd hyd 2014. Ni ddylid anghofio'r Gymanfa ychwaith ac mae'n braf medru dweud iddo fwynhau y Gymanfa eleni yn ôl ym mis Mai 'yn fawr iawn'.

Wrth droi at y pennawd cymdeithas, mae'n rhaid agor y llifddorau led y pen gan fod y rhestr yn un faith: Sioe, Neuadd, Côr, Cyngor Cymuned, Y Fynwent, Cymorth Cristnogol, Pêl-droed, Pysgota, Pryd-ar-Glud, ac enwi dim ond llond dwrn. A'r hyn sydd yn nodweddu'r cyfan yw iddo roi teyrngarwch a ffyddlondeb a manylder anhygoel i'r cyfan. Beth bynnag y byddai Goronwy yn ymwneud ag o, boed deulu neu gapel neu gymdeithas, yr oedd yn rhoi hyd eithaf ei allu a hwnnw yn allu helaeth. Yn wir dyna oedd nodwedd amlycaf ei fywyd, sef y graen oedd ar bopeth gan gynnwys ef ei hun. Yr oedd y geiriau a argraffwyd ar ei daflen goffa mor briodol, 'Mi a ymdrechais ymdrech deg, Mi a orffennais fy ngyrfa, Mi a gedwais y ffydd'. Y mae ein cydymdeimlad yn ddiffuant efo Tegwen, Llinos, Gaynor, Huw, Peter, Huw, Catrin a Nia yn eu profedigaeth.

Diweddu Clinig y Neuadd Goffa

Nid yw meddygon y Borth wedi cynnal meddygfa yn Neuadd Goffa Tal-y-bont er mis Mawrth 2014. Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn ddiweddar mynegodd rhai o'r cynghorwyr eu pryder am anallu rhai pobl oedrannus sydd heb gar i gyrraedd y feddygfa yn y Borth. Y rheswm a roddwyd dros roi'r gorau i gynnal sesiynau clinig y feddygfa yn y Neuadd oedd fod prinder meddygon ym meddygfa'r Borth.

Gan fod y Cyngor Cymuned wedi gohebu â Bwrdd Iechyd Hywel Dda ynghylch y mater, daeth llythyr gan Sam Dentten ar ran Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yn gofyn am dystiolaeth ynghylch effaith diweddu'r gwasanaeth yn y Neuadd Goffa ar gleifion yr ardal. Mae'n debyg nad yw'r Bwrdd Iechyd ond wedi derbyn un llythyr yn unig yn mynegi pryder am golli'r clinig yn Nhal-y-bont mewn cyfnod o ddeunaw mis. Os oes gan unrhyw un o drigolion yr ardal sylw i'w wneud ynghylch eu profiad neu eu hanghenion ar ôl i'r clinig ddod i ben, yna dylent gysylltu gyda Chlerc y Cyngor Cymuned, sef Lowri Jones, sy'n casglu tystiolaeth ar ran y Cyngor: j.lowri@yahoo.co.uk; ffôn: 01654 781302 / 07886367027.

Mae colli clinig meddygon y Borth wedi gwneud gwahaniaeth mawr i incwm y Neuadd Goffa hefyd, oherwydd pan oedd y clinig yn cael ei gynnal yn rheolaidd ym mhentref Tal-y-bont yr oedd meddygfa'r Borth yn talu £1,260 y flwyddyn i'r Neuadd. Dyma enghraifft arall o wasanaeth yn cael ei golli o ganlyniad i'r prinder o feddygon yng nghefn gwlad Cymru.

Garej Paul Joseph
01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT

Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Cneifio dros Gymru

Gan fod tymor y cneifio yn awr yn dirwyn i ben, a'r rhan fwyaf o'r cystadlaethau cneifio wedi gorffen, mae wedi bod yn flwyddyn i'w chofio i Rhydian Evans, Tynant, Bont-goch. Cafodd y fraint o gynrychioli Cymru mewn dwy gystadleuaeth frwd iawn, y gyntaf i fyny ar Stad y Rug ger y Bala, lle mae Cystadlaethau Cneifio Corwen yn cael eu cynnal yn flynyddol. Bu'n cneifio yn nhîm Cymru yn yr *International Relay* o dri chneifiwr, yn cystadlu yn erbyn pump tîm arall, sef yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr, Seland Newydd, a Ffrainc. Tîm Cymru a ddaeth i'r brig. Cafodd y cyfle i fynd allan i Ffrainc fel un o'r tîm o ddau i gynrychioli Cymru gydag Ian Jones o Lanelwedd a Martin David, rheolwr y tîm, mewn gornest allan yn erbyn y Ffrancwyr ac mi ddaeth y Cymry i'r brig unwaith eto, tipyn o gamp gan fod y Ffrancwyr ar eu tir eu hunain. Llongyfarchiadau mawr iawn iddo.

Llun: o'r chwith i'r dde, Martin David, Rhydian Evans, ac Ian Jones.

Llwyddiant ar fy meic

Mae beicio wedi dod yn arfer poblogaidd iawn erbyn hyn, ac mae llawer o bobl leol wedi cymryd at y gamp o gystadlu mewn rasys beiciau. Un wraig a lwyddodd i gipio'r wobr gyntaf yn ei ras feiciau gyntaf un ar y ffordd yw Anita Saycell o Ddôl Pistyll, Tal-y-bont. Daeth yn gyntaf mewn ras feiciau ffordd yn Swydd Rydychen ym mis Mai eleni. Mae Anita'n aelod o Glwb Seiclo Aberystwyth,a dyma adroddiad ganddi ar ei phrofiad:

'Y profiad cyntaf a gefais o gymryd rhan mewn ras feic ar y ffordd oedd yn ras y 'Woodstock Classic' yn ôl ym mis Mai yng nghategori 3 a 4 ar gyfer merched. Yr oeddwn yn nerfus iawn cyn dechrau, ond edrychwn ymlaen hefyd at gael reidio yng nghwmni merched eraill. Yr oedd 50 o feicwyr yn cystadlu, a'r sawl oedd yn cychwyn y ras yn swyddogol oedd Nicole Cooke, y Gymraes sy'n enillydd pencampwriaethau beicio'r byd ac yn fedalydd aur y Gêmau Olympaidd. Llwyddais i aros gyda'r prif grŵp o feicwyr a chadw i fyny â nhw ar hyd y daith 50 cilomedr. Ar y drofa olaf llwyddais i fynd ar y blaen a chyda fy holl nerth mi lwyddais i groesi'r llinell derfyn. Roedd Nicole Cook yno i gyflwyno'r gwobrau ac i lofnodi copïau o'i llyfr. Dyna ddiwedd anhygoel ar y ras i mi yn bersonol, ac yr oeddwn wrth fy modd. Rwyf eisoes yn cynllunio ar gyfer fy rasys nesaf!'

Anita Saycell

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 **www.davmorgarage.co.uk**

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SL

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Wales REMOVALS

Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsuppies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Y Gair Olaf

Roeddwn yn darllen Gair Olaf mis Mehefin yn *Papur Pawb* am waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwarchod ein hadnoddau naturiol. Ac fe ddes i i'r casgliad na chaiff Lisa'r gair olaf y tro yma!

Mae'r adnoddau naturiol o'n cwmpas yma i ni eu defnyddio'n gyfrifol er lles y gymdeithas. Ffermwyr ac anifeiliaid pori sydd wedi creu a llunio ein tirwedd hyfryd, a'r amaethwr sydd yn bennaf gyfrifol am ddiogelu 'cyfoeth naturiol Cymru'. Yn anffodus, mae'r gyfran o'r cyflog a warir ar fwyd ar y lefel isaf erioed ac mae'n ffodus, felly, fod y gymdeithas yn gwerthfawrogi cyfraniad yr amaethwr i warchod ein hadnoddau drwy gynlluniau fel Glastir.

Rydym yma yng ngenau'r Afon Ddyfi yn byw mewn amgylchedd sydd yn newydd iawn. Ffurfiwyd y gors wedi'r Oes Iâ ddiwethaf, y twyni yn Ynys-las yn yr Oesoedd Canol, ac o fewn cyfnod fy mywyd i mae ceg yr afon wedi llanw â mwd efo dyfodiad glaswelltir Cord yn 1920.

O gredu'r gwyddonwyr, mae newid i'r hinsawdd yn mynd i arwain at godiad yn lefel y môr. Edrychaf ymlaen at chwarae golff yn y Borth am sbel eto, a gobeithio na welaf Ynys Fergi a phob ynys arall yn ardal y Gors yn dod yn wir ynysoedd – ond pwy a ŵyr? Ffwlbri o'r eithaf fyddai dilyn y polisi presennol o beidio trwsio'r morgloddiau, a chloddiau'r afonydd o'r flwyddyn nesaf ymlaen, gan adael i natur ddilyn ei gwrs. Tra na fedrwn frwydro yn erbyn natur am byth, fe allwn, fel ein cyndeidiau, ffrwyno natur er lles y ddynoliaeth. Gobeithio na fydd cyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein rhwystro i'r perwyl yma.

Owen Jenkins

Chwaraeon

Gŵyl Bêl-Droed Lwyddiannus

Eleni cynhaliwyd Gŵyl Bêl-droed Tal-y-bont dros ddau ddiwrnod ar 20/21 Mehefin ar Gae'r Odyn Galch. Roedd y cyfan wedi'i drefnu'n effeithiol gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont, dan ofal medrus Ceri Jones.

Eleni roedd 68 tîm yn cystadlu. Roedd cystadlaethau ar gyfer plant dan 7, dan 9, dan 11, dan 12, dan 14, a dan 16. Teigars Tal-y-bont, dan hyfforddiant Paul Kelly a Gareth Norris, a enillodd y cwpan yn y grŵp dan 7, ond doedd dim lwc i'r timau eraill yn eu hadrannau.

Sicrhawyd nawdd ar gyfer y dydd gan Aberdovey Boat Charter, E&M Motors, Little Italy, Chris Byrne, Woods, Anthony Foulkes, Griffiths, Evans Auto Repairs, The Wildfowler, Lloyd Herbert & Jones, Lee Jones, Aled Ellis, Ow's Cabs, Morgans, Plas Cwmcynfelin, The Jewellery House, John Bishop, BBC Radio 2, Karen Walsh, Wynford Williams, Expresso Cafe, Shakers, Teiars Huw Lewis , a Trevor Evans.

Noddwyd y medalau dan 7 gan Statkraft Energy Ltd. Hefyd rhaid diolch i'r Dafarn Datws, Waunfawr, Salon Leri, a Mike Putt am noddi'r Ras Lwcus. Diolch hefyd i Debbie Benjamin a'r merched ac i'r holl wirfoddolwyr a fu'n cynorthwyo. Hebddynt fydde'r ŵyl ddim yn bosib.

Ennill yng Nghaerfyrddin

Llongyfarchiadau mawr i dîm merched Teigars Tal-y-bont dan 14 ar ennill cystadleuaeth Gŵyl Pêl-droed Caerfyrddin, a hynny heb ildio'r un gôl. Llwyddodd y merched i ennill yn erbyn timau o ardal Abertawe, gan guro tîm Sanclêr yn y ffeinal o 4 i 0. Diolch i'r hyfforddwyr Karen Evans a Nikki Myring-Thomas am eu gwaith caled.

Noson Ddartiau

Cynhaliwyd noson ddartiau flynyddol yn y Llew Gwyn yn ystod yr haf, er mwyn codi arian er cof am y diweddar Stevan Southgate. Dyma rai o'r buddugwyr: Dafydd Williams, Dafydd Southgate, Ffion Williams a Ffion Southgate.

BWYD DA . . .
CWMNI DA . . .
yBlac
TALYBONT
BWYTY A BAR
CINIO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00
CINIO SUL 12.00 - 3.00
AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNIGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk
Gwelwn chi'n fuan. . . Cofion Siôn, Catrin a'r tîm
01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

pp medi 15 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 09/09/2015 11:57 Page 1

Hwyl yr Haf

ATODIAD LLIW PAPUR PAWB MEDI 2015

Elgan Evans wrthi yn y cneifio cyflym, muy o luniau oddi mewn

Sioe Tal-y-bont

Gerald Watkin yn derbyn y gwpan am y fuwch Holstein orau gan Llywydd y Sioe, Arvid Parry Jones

Janet Jones gyda'r gwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran cyffeithiau

'Ludo' gyda'i berchnogion Mr a Mrs Hutton, Tre'rddôl

Y llywyddion Arvid a Gwenllian Parry Jones yn derbyn tusw o flodau gan Alaw Grug

Teulu Jenkins Tynygraig a Tanyrallt yn fuddugol yn yr adran Defaid Mynydd Cymreig

Chris Gilbert a Beti Wyn Davies a enillod nifer o wobrau yn yr adran flodau

Liz Roberts un o fuddugwyr yn yr adran goginio

Cyflwynwyd blodau i Dilys Morgan am ei gwasanaeth hir i'r Sioe

Betsan Elenid Siencyn yn derbyn y gwpan am y marciau uchaf yn adran y Clwb Ffermwyr Ifainc

Claire Fowler enillydd cwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran goginio

Gwen Hughes, ail am ei chorbwmpen

Susan Rowlands, pencampwr yn yr adran Zwartbles

Rowland Davies, Dolclettwr gyda'i hwrdd buddugol

pp medi 15 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 09/09/2015 11:58 Page 3

Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn

Cystadleuaeth Bwgan Brain

Elinor Davies a Becca Fflur, buddugol yn adran y plant

Chris Gilbert a enillodd wobr am eu threfniant blodau

Glen Griffiths gyda'i chacen spwng

Jasmine Foster Leslie gyda'r ffrwythau buddugol

Geraint a Dewi y sylwebwyr

Y rhes flaen

Gwion a Rhys

pp medi 15 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 09/09/2015 11:58 Page 4

Gŵyl Pêl-droed Tal-y-bont

Teigars Tal-y-bont enillwyr grŵp dan 7

Ffotograffau gan: Gwyn Jenkins, Ruth Jên a Fal Jenkins

Noddwyd yr atodiad lliw hwn gan **Y Lolfa 01970 832304**